**LC370**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU**
**DRAFFT**

**LEGISLATION COMMITTEE REPORT**
**DRAFT**

**Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 11) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn rheoli anfon anifeiliaid byw, cig a chynhyrchion anifeiliaid o Gymru i fannau y tu allan i Ynysoedd Prydain ac i Ogledd Iwerddon ac Ynys Manaw. Maent hefyd yn cyfyngu mewnforio anifeiliaid byw i Gymru. Maent yn disodli Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 10) 2001.

**Rheoliad Sefydlog 11.5**

O dan Reol Sefydlog 11.4, bydd angen codi'r pwyntiau canlynol sy'n ymwneud â Rheoliad 20 gyda'r Gweinidog.

1. Caniateir codi ffi pan fydd –

   "supervision or inspection is carried out … for the purposes of establishing the eligibility for dispatch …"

Gofynnir a fwriedir i hyn olygu mai dim ond os yw unrhyw waith goruchwylio neu arolygu angenrheidiol wedi'i drefnu gan y person sy'n bwriadu anfon cynnyrch y caniateir codi ffi, neu a all ffioedd gael eu codi hefyd pan wneir gwaith arolygu ar gais yr awdurdod arolygu, er mwyn darganfod a oes unrhyw un o'r rheoliadau wedi'i dorri?

2.  Cyfeirir at anfon “products”.  Gofynnir beth yw’r bwriad – ai cyfyngu ffioedd i waith goruchwylio ac arolygu mewn perthynas ag eitem a nodir yn benodol yn y Rheoliadau fel “products” neu fod ffioedd yn gallu cael eu codi yn ehangach na hyn.

Nodwyd nifer o bwyntiau teipograffyddol a phwyntiau cyffelyb gan gynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor a’u cyfleu i’r cyfreithiwr a ddrafftiodd y Rheoliadau.

Cynghorydd Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfau

Cyf:  LAD 01-01-426

8 Tachwedd 2001